



**Mae mudiadau Cydweithredol ac Atgyrchol Cymru
yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaeth gyfrannol
Ddydd Sadwrn, 19 Tachwedd 2016 (10.30- 3.30)
yn Swyddfeydd Cartrefi Cymru, Caerdydd**

Prif thema'r drafodaeth fydd

**Sut gallwn greu cydweithredwyr?
Beth yw ystyr Addysg Gydweithredol a pha mor berthnasol yw e?**

Ein hamcanion:

- (a) Ystyried addysg gydweithredol – ddoe, heddiw ac yfory;
- (b) Ystyried y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i gefnogi sefydlu anturiaethau cydweithredol
- (c) Trafod sut y gellir gwneud hyn yng Ngymru

Bydd rhaglen y dydd yn cynnwys sylwadau byr gan 4 siaradwr allweddol a thrafodaeth mewn grwpiau dan ofal arweinwyr profiadol. Gweler nodiadau am y siaradwyr drosodd: byddant yn trafod y pynciau canlynol:

- Peter Couchman, Chief Executive, Plunkett Foundation: *Pam Addysg Gydweithredol?*
- David Palmer, Wales Co-operative Centre: *Bylchau mewn addysg ac hyfforddiant ym maes Tai*
- Joe Allen, ABCUL Policy Officer for Wales: *Bylchau mewn addysg ac hyfforddiant o safbwynt Undeb Credyd*
- Simon Parkinson, Principal, the Co-operative College: *Cyfleoedd am Addysg Gydweithredol*

Byddwn yn danfon adroddiad o'r trafodaethau at bawb sy'n cymryd rhan gan obeithio y bydd o fudd wrth geisio ateb y cwestiynnau sylfaenol am Addysg Gydweithredol yng Nghymru, sef **Beth sy'n Gweithio? Beth arall y dylid ei wneud? Sut y gallwn sicrhau ei fod yn digwydd? a Beth Nesa?**

Rydym yn ddiolchgar iawn i Gartrefi Cymru am adael ini ddefnyddio eu swyddfeydd. Rhaid cyfyngu nifer y bobl sy'n dod i'r cyfarfod ac felly dewiswyd y gwahoddedigion er mwyn sicrhau ystod eang o bobl o wahanol gefndiroedd a thrafodaeth fywiog. Rydym y codi £10 y pen – yn daladwy wrth fwcio lle – i dalu am fwyd a lluniaeth a'r gost o gynhyrchu'r adroddiad.

I sicrhau lle ewch at: bit.ly/coopeduevent

Os nad ydych yn gallu ymuno a ni y diwrnod hwnnw, byddem yn falch o gael unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar Addysg Gydweithredol erbyn 15 Tachwedd er mwyn sicrhau y gellir eu rhannu a phawb sy'n gallu bod yno. Diolch.

Cysylltiad a'r Arolwg Wefan: bit.ly/coopeduviews

Bwriad y cyfarfod hwn yw dylunio'r cyd-destun a'n galluogi i ffocysu ar y pethau pwysicaf. Trefnir cyfarfod arall ym Mis Mawrth 2017 er mwyn ceisio defnyddio canlyniad y trafodaethau i lunio rhaglen o weithrediadau pendant i hyrwyddo Addysg Gydweithredol yng Nghymru.

Lleoliad: Prif Swyddfa Cartrefi Cymru: Uned 5&6 Coopers Yard, Curran Rd, Caerdydd CF10 5NB. Danfonnir cyfarwyddiadau teithio a manylion parcio at bawb sy'n cofrestru yn nes i'r dyddiad.

"... heb unrhyw amheuaeth, mae cefnogi addysg ac hyfforddiant, sef ein pumed egwyddor, yn sylfaenol i'n mudiad. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau ariannol a chefnogaeth ymarferol angenrheidiol arall bob amser yn dilyn" - Linda Shaw, Making Connections, Education for Co-operators, Co-operative College, 2009

Cefndir

Erbyn heddiw, mae cyrff cyd-weithredol ac atgyrchol yn cael eu cydnabod mewn deddfwriaeth Gymreig – ee yn y Ddeddf Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a Deddf Buddiannau Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae disgrifiadau newydd wedi eu mabwysiadu hefyd er mwyn disgrifio syniadau arbennig, megis cyd-greu a chydweithrediadaeth.

Mae'n Llywodraeth a'r prif bleidiau gwleidyddol yn cytuno'n fras ar bwysigrwydd cydweithredu ac atgyrchu - gan gynnwys cyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus – ac nid ar sail cost yn unig ond yn gyffredinol i gryfhau cymdeithas sifil.

Roedd y cydweithredwyr cynnar y dilyn delfryd, ac roedd creu cydweithredwyr a datblygu arweinwyr i'r mudiad yn rhan anatod o'r weledigaeth honno. A ninnau'n fudiad democrataidd, mae ansawdd a dylanwad ein polisiau'n dibynnu ar ansawdd ein haelodau. Pa mor berthnasol, felly, yw Addysg Gydweithredol i fudiadau cydweithredol ac atgyrchol Cymru?

Mae gan Fudiadau Cydweithredol ac Atgyrchol Cymru thema sylfaenol o Gymunedau Cydweithredol. Dyma'r cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd i drafod ystyr "Addysg Gydweithredol" ac mae'n canolbwyntio ar **Sut y Gallwn Greu Cydweithredwyr?**

Ein siaradwyr:



Peter Couchman (Pam Addysg Gydweithredol?)

Mae Peter yn Brif Weithredwr Sefydliad Plunkett sy'n cefnogi cymunedau gwledig sydd am gymryd rheolaeth ar faterion o bwys iddynt hwy, megis diogelu dyfodol siop neu dafarn leol neu prynu bwyd lleol. Ym 2013, Sefydliad Plunkett oedd y corff cyntaf i ennill gwobr Arloeswyr Rochdale – gwobr a ddyfernir gan y mudiad cydweithredol rhyngwladol am gyfraniad i dwf y mudiad cydweithredol.



David Palmer (Bylchau mewn addysg ac hyfforddiant ym maes Tai)

Penodwyd David yn Rheolwr Prosiect Tai Cydweithredol gan Ganolfan Gydweithredu Cymru yn Tachwedd 2012. Cyn hynny, bu'n gweithio gyda Chartrefi Persimmon, Cymdeithas Tai y Gororau, Adran Tai Cymunedol Dinas Bryste, Cymdeithas Tai Teuluol yn Birmingham ac mewn sawl swydd rheoli mewn llywodraeth leol yn ne Cymru. Wrth ei broffesiwn mae'n bensaer siartredig ac yn aelod o'r GMB a bu hefyd yn ysgrifennydd Cymdeithas Tai Afon Lwyd.



Joe Allen (Bylchau mewn addysg ac hyfforddiant o safbwynt Undeb Credyd)

Mae Joe yn Swyddog Polisi Cymru i Gymdeithas Undebau Credyd Cyf. – sef prif gymdeithas undebau credyd Prydain sy'n cynrychioli dros 65% o aelodau undebau credyd Cymru. Mae nifer yr aelodau yng Nghymru wedi dyblu o fewn y degawd diwethaf ac fe saif yn awr yn 80,000. Yn ddiweddar mae Joe wedi cyd-weithio ag undebau unigol i baratoi strategaeth genedlaethol i Undebau Credyd am y tro cyntaf.



Simon Parkinson (Opportunities Cyfleoedd am Addysg Gydweithredol)

Simon yw Pennaeth a Phrif Weithredwr y Coleg Cydweithredol. Cyn ymuno a'r coleg ym Mawrth 2015, bu'n gweithio dros Mencap, y prif fudiad gwirfoddol sy'n ymladd dros hawliau pobl ag anhawsterau dysgu. Mae Simon yn adeiladu ar seilau cryf y Coleg Cydweithredol i greu calon newydd ddirgrydol a pherthnasol ar gyfer addysg gyweithredol. Mae Simon yn hannu o Salford ac aeth i brifysgol Salford ac i Brifysgol Warwick ac mae ganddo radd meistr mewn gweinyddiaeth gyhoeddus.

Am unrhyw ymholiadau neu am wybodaeth bellach, cysyllter a David Smith trwy e-bost:
ds@davidsmith.org.uk